3 Arfer Da wrth...leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu

Cyflwyniad

Mae ychydig iawn o dystiolaeth bendant yn y DU o'r hyn sy'n gweithio wrth ymdrin â throseddu ieuenctid. Mewn adroddiad yn 2011 ar y system Cyfiawnder Ieuenctid, adroddwyd y canlynol:

> "Gwyddys ychydig iawn am effeithiolrwydd cymharol ymyraethau gyda throseddwyr ifanc. Nid oedd modd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynysu pa raglenni a oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar droseddu ieuenctid a pham."

Roedd pobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu ymysg prif fuddiolwyr gweithgareddau Cronfa Pobl Ifanc y Gronfa Loteri Fawr ar draws y DU.

Dangosodd prosiectau a dderbyniodd arian CPI ystod o ymagweddau at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol yn eu cymunedau lleol.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r ymagweddau a'r gweithgareddau sydd wedi gweithio'n dda ar gyfer prosiectau CPI o ran ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn a'u cefnogi.

Mae'r canllaw yn darparu cyngor, enghreifftiau ymarferol a ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth bellach a all fod yn ddefnyddiol os ydych yn gweithio gyda'r grŵp hwn. Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad CPI a gyflawnwyd gan GEN Consulting a Wavehill Consulting.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol – blaenoriaeth o ran polisi

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol yn peri emosiynau cryf ac mae'n fater sydd wedi bod yn uchel ar yr agenda wleidyddol ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r cyhoedd yn gofalu am ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r effaith y mae'n ei chael ar ansawdd eu bywydau.

Serch hynny, nid oes consensws am beth yn union yw ymddygiad gwrthgymdeithasol neu pa mor gyffredinol y mae yn ein cymunedau.

Mae trafodaethau ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn tueddu i gynnwys materion fel: sŵn, aflonyddwch, dirywiad amgylcheddol (sbwriel, graffiti, fandaliaeth), a phobl ifanc yn ymgynnull mewn mannau cyhoeddus. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanfyddiadau ohono ddylanwadu'n negyddol ar gydlyniant cymunedol.

Mae tystiolaeth bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn digwydd cyn ymddygiad troseddu mwy difrifol ymysg pobl ifanc.

Ar ôl i'r patrwm ymddygiad gael ei sefydlu gall fod yn anodd torri'r cylch, ac mae cyfraddau aildroseddu troseddwyr ifanc yn gymharol uchel.

Gan hynny, mae pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar i gyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol yn flaenoriaeth o ran polisi ar gyfer y llywodraeth ac yn un y mae'r sector ieuenctid mewn sefyllfa dda i gyfrannu ati.

Mae lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ymysg pobl ifanc yn arwain at fuddion economaidd a chymdeithasol sylweddol ar gyfer pobl ifanc, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol.

Rôl y CPI

Aeth gweithgareddau'r CPI i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol mewn nifer o ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys ymagweddau uniongyrchol ac anuniongyrchol gan gynnwys:

- Darparu gweithgareddau sy'n cyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o ymddygiad a grwpiau cymheiriaid negyddol ac yn eu cynnwys mewn gweithgareddau hamdden a chymunedol mwy cadarnhaol.
- Gweithio ochr yn ochr â'r sector Cyfiawnder Ieuenctid a strwythurau cymunedol i gynnwys pobl ifanc mewn perygl a chreu newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad.
- Gweithgareddau a ymdriniodd yn uniongyrchol â'r ffactorau sy'n sylfaen i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, er enghraifft diweithdra, dyled, camddefnyddio sylweddau, perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol gwael.

[1]www.audit-commission.gov.uk/SiteCollectionDocuments/AuditCommissionReports/NationalStudies/hangingaroundyoungpeoplesviews.pdf

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Darparu gweithgareddau sy'n cyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o ymddygiad a grwpiau cymheiriaid negyddol ac yn eu cynnwys mewn gweithgareddau hamdden a chymunedol mwy cadarnhaol.

- Gweithio ochr yn ochr â'r sector Cyfiawnder Ieuenctid a strwythurau cymunedol i gynnwys pobl ifanc mewn perygl a chreu newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad.
- Gweithgareddau a ymdriniodd yn uniongyrchol â'r ffactorau sy'n sylfaen i ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, er enghraifft diweithdra, dyled, camddefnyddio sylweddau, perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol gwael.

Beth sy'n gweithio?

Gweithgareddau dargyfeirio – mae mwynhad yn allweddol o ran llwyddo

Mae cynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol a difyr gyda grŵp cymheiriaid cadarnhaol yn gam cyntaf pwysig wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; mewn llawer o achosion mae pobl ifanc yn dechrau ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu lefel isel o ganlyniad i ddiflastod a phwysau gan gymheiriaid.

Os gallwch ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc sianelu egni a brwdfrydedd mewn ffordd gadarnhaol, gall hyn gael effaith sylweddol pan gaiff ei dargedu ar ardaloedd sydd â chyfleusterau lleol cyfyngedig a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol cydnabyddedig.

Mae'r gwerthusiad o'r CPI ac ymchwil arall yn amlygu llwyddiant gweithgareddau corfforol a diddordebau awyr agored yn hyn o beth.

Profodd hyn yn llwyddiannus ar gyfer rhai prosiectau CPI (Astudiaeth Achos Enghreifftiol 1).

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 1

Gwlad: Yr Alban

Prosiect: Street League Scotland

Darparodd Street League raglen dau gam gynyddol; Street Sports a Directions 2 Work (D2W). Roedd Street Sports yn fenter i gynnwys cyfranogwyr cyn eu symud nhw ymlaen at y rhaglen gyflogadwyedd. Defnyddiodd D2W bêl-droed i gyflwyno cyfleoedd datblygu personol i gyfranogwyr. Datblygodd pobl ifanc sgiliau i wella'u cyflogadwyedd a gweithio tuag at gymwysterau achrededig. Gweithiodd y prosiect gyda phobl ifanc anodd eu cyrraedd, y rhai sy'n profi amddifadedd a diweithdra. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys pobl ifanc ag ystod o anghenion, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, pobl ddigartref, troseddwyr a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu.

Sefydlodd Street League Gynghrair Pêl-droed gyda'r hwyr yn nwyrain Glasgow. Bu'r prosiect hwn yn cynnwys y rhai nad oeddent yn gyffredinol yn hygyrchu gwasanaethau, a darparodd weithgaredd cadarnhaol i gynorthwyo cydlyniant cymunedol ac annog pobl oddi ar y strydoedd. Nododd adborth gan yr heddlu ostyngiad sylweddol mewn adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad treisgar ar ôl cyflwyno'r rhaglen.

Adroddodd un cyfranogwr: "Pennais i lan yn gwneud yr holl bethau drwg; yfed, cymryd cyffuriau, ymladd mewn gangiau a diogi. Darparodd Street League ychydig o strwythur i'm diwrnod wrth i mi ymuno â'r rhaglen wirfoddoli 12 wythnos ac roedd hynny'n wych i mi gan iddi redeg am dri diwrnod yr wythnos, gan olygu bod fy niwrnodau'n llawn, yn gwneud pethau ac yn ennill cymwysterau a fyddai'n fy helpu i gael swydd yn y pen draw. Helpodd hefyd i mi ddianc o'r pethau drwg yr oeddwn yn eu gwneud, fel yfed yn ystod y dydd a chymryd cyffuriau, yn ogystal ag ymladd mewn gangiau gyda'r hwyr. Gwellodd fy hyder yn sylweddol, a dechreuais aros i mewn nos Wener gan i mi ymuno â'r tîm 11 pob ochr, felly roeddwn am fod yn ffres ar gyfer y gemau ar fore Sadwrn."

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 2 y CPI (2008
Neu
www.streetleague.co.uk

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Pan fydd gweithgareddau'n ddifyr ac yn ysgogol, bydd pobl ifanc eisiau ymwneud â nhw a byddant yn fwy tebygol o ddod yn wirfoddol.

Pan fydd pobl ifanc yn dewis dod i ddigwyddiadau, mae hyn yn ei dro yn creu gwell symbyliad ac ymgysylltu parhaus.

Cyfleoedd ar gyfer datblygu personol a chymdeithasol

Mae gweithgareddau dargyfeirio'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymddiried yn gynyddol mewn pobl eraill ac ennill hunanhyder cyn iddynt symud ymlaen at ymyraethau mwy penodol ac wedi'u ffocysu.

Amlygodd ein hymchwil enghreifftiau niferus o brosiectau a ddefnyddiodd hwyl a gweithgareddau dargyfeirio difyr fel llwybr i gefnogaeth strwythuredig.

Darparwyd enghraifft gan Street League Scotland yn astudiaeth achos enghreifftiol 1 a chan brosiect pobl ifanc Tullymore yn astudiaeth achos enghreifftiol 2.

Torri'r cylch – pwysigrwydd rhwydwaith cymdeithasol cadarnhaol

Pan fydd pobl ifanc yn dysgu gyda grŵp cymheiriaid cadarnhaol ac oedolion sy'n fodelau rôl y maent yn ymddiried ynddynt, gall hyn ddylanwadu ar newid ymddygiad.

Dangosodd ein hymchwil lwyddiant yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

1. **Roedd ymyraethau'n ymwneud â phobl ifanc yn rhyngweithio â grŵp cymdeithasol gwahanol**

   Mae hyn yn helpu i dorri cysylltiadau gyda hierarchaethau cymheiriaid negyddol (megis y rhai a geir mewn gangiau neu gymunedau sydd â gwahanfâu tiriogaethol).

   Mae'n helpu pobl ifanc i ddysgu normau cymdeithasol newydd o ran eu hymddygiad - gan ddysgu'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol, effaith ymddygiad negyddol ar bobl eraill a beth yw ymddygiad cadarnhaol.

   Mae cymysgu y tu allan i'w grwpiau blaenorol yn cynnig cyfle i bobl ifanc brofi ffyrdd newydd o gyfathrebu, dysgu sgiliau a pherthnasoedd newydd, a meddwl drostynt eu hunain.

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 2

Gwlad: Gogledd Iwerddon

Prosiect: Prosiect Pobl Ifanc Tullymore

Mudiad: Fforwm Cymunedol Upper Andersonstown (Gorllewin Belfast)

Rhoddodd cefnogaeth gan y CPI gyfle i'r fforwm ehangu ei raglen o weithgareddau ieuenctid ar gyfer rhaglen allgymorth i gynnwys pobl ifanc anodd eu cyrraedd mewn gweithgareddau cadarnhaol. Ariannodd y CPI weithwyr ieuenctid datgysylltiedig i gynnwys pobl ifanc leol yng ngweithgareddau'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol.

Darparodd y prosiect ystod helaeth o weithgareddau adloniant a hamdden ynghyd â rhaglenni datblygiad personol a chymdeithasol strwythuredig a hyfforddiant a achredwyd gan y Rhwydwaith Coleg Agored.

Cymerodd pobl ifanc ran mewn ystod helaeth o weithgareddau cymunedol i dorri'r rhwystrau i lawr rhwng pobl ifanc a rhannau eraill o'r gymuned, gan helpu pobl ifanc i gael eu gweld mewn ffordd gadarnhaol. Dyma rai enghreifftiau:

- Prosiect amgylcheddol lle treuliodd pobl ifanc ddiwrnod yn glanhau sbwriel o'r strydoedd. Cafodd y digwyddiad gryn dipyn o gyhoeddusrwydd ac ymunodd yr AS lleol â'r bobl ifanc i helpu.
- Creodd pobl ifanc fasgedi blodau a'u dosbarthu i bobl oedrannus yn y gymdogaeth.
- Helpodd pobl ifanc bobl oedrannus yn y gymuned drwy fynd i'r siopau ar eu cyfer, gwneud eu gerddi a galw heibio eu tai i weld sut maen nhw'n dygymod â phethau ac i siarad â nhw.

Am fwy o wybodaeth gweler:
Gwerthusiad o Flwyddyn 4 y CPI (2011)

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

2. Ffurfiodd pobl ifanc gyfeillgarwch yn ogystal â chymysgu ag eraill yn unig

Ceir tystiolaeth bod cyfeillion yn amddiffyn pobl ifanc rhag gweithgareddau negyddol ac uchel eu risg. Mae gan hyn oblygiadau o ran deall sut y gellir defnyddio pwysau gan gymheiriaid i ddylanwadu ar ymddygiad pobl yn eu harddegau.

Cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad gweithredol

Gall ymwneud yn weithredol â datblygu, cyflwyno, rheoli a gwerthuso prosiectau greu buddion sylweddol ar gyfer pobl ifanc, mudiadau, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol.

Ymchwilir i'r pwnc hwn yn fanwl yn y Cynllun Arfer Da. 'Arfer Da wrth Gynnwys Pobl Ifanc yn Weithredol' sy'n rhan o'r gyfres hon.

Mae llawer o ffyrdd y gallwch gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan yn eich prosiect.

Nododd prosiectau CPI sy'n gweithio gyda phobl ifanc y maent yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddwyr ifanc, cyn-droseddwyr a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu fod cyfranogiad gweithredol ac ystyrlon yn cynyddu cyfranogiad pobl ifanc, yn helpu i'w symbylu i gymryd rhan yn gynyddol ac annog eraill i gymryd rhan.

Mae cymryd rhan yn cynyddu parch ac yn hyrwyddo perthnasoedd da gydag oedolion. Darperir enghraifft yn yr astudiaeth achos.

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 3

Gwlad: Gogledd Iwerddon

Prosiect: Youth at Risk

Mudiad: YMCA Lurgan.

Gweithiodd YMCA Lurgan ar draws gwahanfa'r gymuned i gynnwys pobl ifanc a oedd mewn perygl o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu neu sectyddol. Darparodd y prosiect ystod o gyfleoedd hamdden a dysgu.

Roedd pobl ifanc yn ymwneud yn weithredol â chyflwyno a rheoli'r prosiect.

Fe'u cynrychiolwyd ar bwyllgor ieuenctid a chymeron nhw ran yn weithredol mewn gwneud penderfyniadau ar gyflwyniad y rhaglen. Roedd gan gynrychiolwyr pobl ifanc hawliau pleidleisio o fewn y mudiad hefyd. Sylwodd un person ifanc:

"Parodd i mi deimlo'n arbennig ac wedi fy ngrymuso gan fy mod yn cael gwneud penderfyniadau a theimlodd y bobl ifanc eraill y byddwn yn dda yn y rôl hon... nid tocynistiaeth mohono, mae gennyf fewnbwn go iawn ac rwy'n teimlo bod yr oedolion yn gwrando arnaf".

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 5 y CPI (2011)

Neu

www.ymcalurgan.com

Mae'r astudiaeth achos yn dangos y ffordd y gall cyfranogiad gweithredol ddatblygu sgiliau technegol, personol a chymdeithasol pobl ifanc. Mae cyfranogiad gweithredol hefyd yn cynyddu teimladau pobl ifanc o'u gwerth ac yn creu gwell ymgysylltu a symbyliad ar gyfer cymryd rhan yn ehangach.

[2]Maxwell, Kimberley A. (2002). Journal of Youth and Adolescence, Vol. 31, No. 4, August, pp. 267–277.

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Modelau rôl y gall pobl ifanc uniaethu â nhw – llwyddiant ymagweddau a arweinir gan gymheiriaid

Efallai y byddwch yn gweld yn aml iawn bod pobl ifanc yn ymateb orau i negeseuon am newid ymddygiad pan ddeuant gan eraill y maent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa debyg a chyda phwy y maent yn rhannu peth tir cyffredin.

Gan hynny mae gweithgareddau a arweinir gan gymheiriaid yn ffordd lwyddiannus o ymgysylltu â phobl ifanc[3].

Gweithiodd ymagweddau a arweinir gan gymheiriaid at gynyddu ymwybyddiaeth ac addysg yn dda ar gyfer prosiectau CPI sy'n ceisio dylanwadu ar ymddygiad a chanfyddiadau pobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu weithgareddau troseddu (astudiaeth achos enghreifftiol 4).

[3]www.ejprob.ro/uploads_ro/693/Pro-social_modelling.pdf

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 4

Gwlad: Yr Alban

Prosiect: Peer Leaders in the Community

Mudiad: Canolfan Ieuenctid Granton

Sefydlwyd Canolfan Ieuenctid Granton oherwydd pryderon ynglŷn â diffyg darpariaeth i bobl ifanc yng Ngogledd Caeredin. Mae'r Ganolfan wedi'i lleoli mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae'n cynnal clybiau i bobl ifanc o oedrannau amrywiol ac yn cynnig ystod o weithgareddau i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc a'u cefnogi wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Sefydlwyd y prosiect Peer Leaders in the Community i annog trafodaeth ynglŷn â phroblemau trais gan gangiau a thiriogaetholdeb. Cydnabuwyd bod hwn yn broblem arwyddocaol yn yr ardal leol.

Hyfforddodd y prosiect 47 o addysgwyr cymheiriaid dros dair blynedd. Datblygodd addysgwyr cymheiriaid ddeunyddiau cynyddu ymwybyddiaeth ac addysgu ar y cyd gyda gweithwyr prosiect, a chyflwynwyd sesiynau i blant iau mewn ysgolion.

Gweithiodd y prosiect gyda phobl ifanc i amlygu problemau trais gan gangiau a thiriogaetholdeb. Darparodd fforwm trafod ac anogodd pobl ifanc i sylweddoli bod yna gweithgareddau amgen a mwy cadarnhaol y gallant gymryd rhan ynddynt.

Cafwyd ymateb da gan bobl ifanc mewn ysgolion i'r sesiynau gan iddynt gael eu cyflwyno gan bobl ifanc eraill, yr oedd llawer ohonynt yn lleol a chyda phrofiad personol o'r problemau hyn.

I'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan fel addysgwyr cymheiriaid, roedd y canlyniadau'n cynnwys hyder cynyddol a datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a chyflogadwyedd a fydd yn cynorthwyo pobl ifanc wrth iddynt symud i fywyd fel oedolion.

I'r bobl ifanc yr oeddent yn ymwneud â gweithgareddau gangiau'n flaenorol, mae tystiolaeth anecdotaidd bod yr addysg gan gymheiriaid wedi helpu i newid eu hagweddau a'u hymddygiad a'u bod bellach yn fwy tebygol o osgoi gwrthdaro a gweithgareddau cysylltiedig â gangiau.

Er bod y prosiect Peer Leaders in the Community wedi dod i ben bellach, mae elfennau o'r gwaith wedi parhau. Mae'r ganolfan bellach yn rhedeg prosiect i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn gwaith ieuenctid a'r celfyddydau creadigol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys tri o'r addysgwyr cymheiriaid blaenorol.

Mae'r grŵp wedi datblygu drama sy'n seiliedig ar themâu troseddu cyllyll a seiberfwlio. Mae hyn wedi cael ei gydnabod gan yr ymgyrch No Knives Better Lives ac o ganlyniad i hyn dyfarnwyd £23,000 gan raglen Cashback for Communities Llywodraeth Yr Alban i berfformio'r ddrama a chyflwyno gweithdai mewn ysgolion.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 5 y CPI 5 (2011)

Neu **www.grantonyouth.com**

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Mae ymyrraeth gynnar yn bwysig

Gall ymyrraeth gynnar gyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o ymddygiad troseddol. Ymgysylltu â phobl ifanc cyn bod patrymau ymddygiad negyddol yn dod i'r amlwg neu'n mynd yn gynhenid yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal. Fel gweithiwr ieuenctid rydych chi mewn sefyllfa dda i ddarparu ymyrraeth gynnar.

Dywedodd pobl ifanc sy'n ymwneud â phrosiectau CPI wrthym yn aml...

> **"Fod y prosiect wedi creu cyswllt â nhw ar yr amser iawn ac yn y ffordd iawn, gan olygu nad oeddent wedi symud ymlaen i droseddu."**

Disgrifir enghraifft o brosiect a ddefnyddiodd ymyrraeth gynnar a gweithgareddau dargyfeirio'n llwyddiannus (a drafodwyd yn flaenorol) i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal troseddu yn astudiaeth achos enghreifftiol 5.

Astudiaeth Achos Enghreifftiol 5

Gwlad: Lloegr

Prosiect: Newbald Church Rooms

Darparodd y prosiect le i bobl ifanc rhwng 13 a 18 oed ddod ynghyd a chymdeithasu. Ariannodd y CPI weithiwr chwarae i oruchwylio a chefnogi'r gweithgareddau y mae pobl ifanc yn dewis eu gwneud.

Roedd y gweithgareddau wedi'u harwain gan bobl ifanc ac yn cynnwys: cwrdd a gwrando ar gerddoriaeth, chwarae pŵl, chwarae tenis bwrdd, cael cymorth gyda gwaith ysgol, cynnal ffair sborion, mynd ar deithiau a diwrnodau allan.

Teimlodd y bobl ifanc fod y prosiect yn rhoi rhywbeth i'w wneud iddynt ac yn eu cadw allan o drafferth. Dywedon nhw fod cael eu diflasu'n golygu eu bod yn fwy tebygol o achosi trafferth, a helpodd y prosiect i gywiro hynny. Yn sgil cyflwyno sesiwn nos Wener roedd y bobl ifanc yn llai tebygol o yfed alcohol gan fod ganddynt rywle arall i fynd a gweithgareddau eraill i gymryd rhan ynddynt.

Ym marn rhai o'r grŵp, heb y lle i gymdeithasu a'r gweithgareddau byddai rhai o'r bobl ifanc wedi dechrau ymwneud â throseddu, gan arwain at ddedfryd mewn sefydliad troseddwyr ieuenctid. Yn lle hynny maen nhw bellach mewn swyddi, ar ôl cael eu cefnogi gan weithwyr i ddatblygu'r sgiliau i ddod o hyd i swydd ac aros yn y swydd.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Gwerthusiad o Flwyddyn 4 y CPI (2011)

[5]www.homeoffice.gov.uk/publications/science-research-statistics/research-statistics/crime-research/horr19/horr19-key-implications?view=Binary

Canllawiau arfer da ar gyfer mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Gwerth cyfranogiad cymunedol

Mae gweithio o fewn, ac ar gyfer y gymuned, yn allweddol o ran ymyraethau llwyddiannus gyda phobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol neu'r rhai sydd mewn perygl o wneud hynny.

Mae prosiectau ieuenctid yn fwyaf llwyddiannus pan fydd yr holl bartneriaid a budd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan. Gall hyn gynnwys heddlu cymunedol, staff addysg a gwaith cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid ac arweinwyr cymunedol.

Mae cydweithio'n agos â'r gymuned yn rhoi cyfle i chi (prosiect ieuenctid) wneud y canlynol yn well:

1. Adnabod canolbwyntiau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu.
2. Datblygu ymyraethau priodol a dyrannu adnoddau'n unol â hynny.
3. Cyflwyno ymagwedd gydlynol at fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ar lefel leol.
4. Cyflwyno ymyraethau cyfiawnder adferol effeithiol sy'n cynnwys pobl ifanc yn eu cymunedau, yn datblygu perchnogaeth ac yn rhoi synnwyr iddynt eu bod yn gwneud iawn am gamgymeriadau'r gorffennol er mwyn iddynt symud ymlaen.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y gwerthusiad cenedlaethol o'r Gronfa Pobl Ifanc, cysylltwch â'r

Gronfa Loteri Fawr: 0845 410 2030

Mae copïau o'r adroddiadau gwerthuso'r Gronfa Pobl Ifanc a dogfennau cefnogol ar gael gan y Gronfa Loteri Fawr yn:

www.cronfaloterifawr.org.uk/eval_ypf

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth os ydych yn ceisio ymgysylltu â throseddwyr ifanc, cyn-droseddwyr, pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a phobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy eich gwaith.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am strwythurau a pholisïau cenedlaethol ar gyfer ymdrin â'r materion hyn, gweler:

- **Cymru a Lloegr:** Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- **Yr Alban: SCARO:** Safeguarding Communities – Reducing Offending.
- **Gogledd Iwerddon:** Asiantaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Iwerddon.

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®